

Cyngor Cymuned Pentir
Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Fercher 9fed o Hydref 2019
yn Eglwys Sant Pedr, Penrhosgarnedd, am 7pm.

Agenda

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Derbyn cofnodion 12fed o Fedi 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Is-bwyllgor Cyllid - Cofnodion 2ail o Hydref (ohirwyd o Medi 25ain)

Materion Archwilwyr Allannol

- Adroddiad Blynyddol bellach wedi ei chadarnhau

Ceisiadau Cynllunio Cais C19/0779/25/LL 5 Pant Caerhun i newid defnydd Modurdy yn salon trin Cwn
Ymateb erbyn 08/10/19 Dim gwrthwynebiad gan y Cyng Lleol
Cais C19/0666/25/LL Coed Bryn Pwll Waen Wen o osod . Gosod Cynhwysyddion
Stori ar dir amaethyddol – Ymateb erbyn 21/10/19

Diweddariad gweinyddiaeth Canolfan Penrhosgarnedd

Diweddariad Datblygiad Ysgol y Faenol

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Cofrestr buddianau i'w chwblhau
 - Trosglwyddo Arian i Cyfrif Cadw
 - Arwyddion Treborth
 - Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni
 - SSL Delwedd
 - Deddf Amgylchedd Cymru – Environment Wales Act – diweddariad o Unllais
- Adroddiad
 - HysbysfyRDD Ysb Gwynedd

Materion y Cynghorwyr

Cyng C E Hughes	Blodau Gwyllt
Cyng L A James	Asesu Risg
Cyng M Baines	Dwr codi Glasinfryn

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 12^{fed} o Fedi 2019 yn Nghanolfan Glasinfryn am 7.00pm

Presennol:

Y Cyng. C. E Hughes, J. Griffiths, M Lynch, E. Jones, D W Jones, B Jones, M Baines, a J Pierce
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, T Anwyl-Williams, H Griffiths , a L. A . James,

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Yn ei sylwadau agoriadol croesawodd y Cadeirydd bawb yn ol ar ol seibiant yr haf yn ystod Mis Awst.

Croeso arbennig i'r Cyng Eleri Jones ag i'w chyfarfod cyntaf.

Cwblhaodd ffurflen derbyn swydd, y ffurflen ymrwymo a derbyn y Cod Ymddygiad yn ogystal a ffurflen datgan buddianau personol.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant ar y ffurflen bwrpasol os oes angen.

Cyng J Pierce yn datgan ei bod yn aelod o Gyfeillion Ysbyty Gwynedd ble 'roedd yr IBC wedi argymhell nawdd ar eu cyfer. Ni chymerodd rhan yn y drafodaeth i gadarnhau yr argymhelliad

Cwblhawyd ffurflen datgan buddiant

Derbyn cofnodion 13eg o Fehefin 2019

Derbynwyd cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng J Griffiths ag a eilwyd gan y Cyng B Jones

Materion yn codi o'r cofnodion

Parcio Penrhos

Adroddodd Cyng M Baines nad oedd y cofnodion yn hollol gywir gan fod Cyf Nat Cymru wedi ymateb ond nad oedd unrhyw altrad yn y sefyllfa.

Coed y Faenol Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd y adrodd fod camau cyfreithiol yn cael eu cymeryd eto ynglyn a'r hyn sy'n mynd ymlaen ar y safle heb y caniatad priodol.

Is-bwyllgor Cyllid - Rhanwyd cofnodion IBC 28ain o Awst oedd yn dangos bod llawer mwy yn y cyfrif na ddylai fod.

Wrth edrych drwy'r adroddiad Banc daeth yn amlwg fod swm o £11,234.73 wedi ei dalu i mewn gan HMRC fel ad-daliad TAW

'Roedd hwn yr ail chwarter fod hyn wedi digwydd gan i ni dderbyn £14.5K yn mis Mawrth hefyd ac a gafodd ei dalu yn ol yn syth

Clerc wedi cysylltu a'r Cyfrifwyr a HMRC ag er iddynt addo dod yn ol hefo eglurhad 'doedd dim wedi digwydd

Bu 3 cais am nawdd Marie Currie a Llais Ogwen heb gynnwys mantolen Gyfredol a'r Clerc i anfon yn ol atynt i esbonio na allwn eu ystyried

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd IBC yn argymhell cyfrannu £300.00 a cafodd yr agymhelliad ei cymeradwyo .

Ad-daliad giat y Fynwent gan Aviva am £504.58 wedi ei dderbyn

BDO

I ddiwallu sylwadau yr Achwilwyr Allannol edrychwyd dros Model Rheoliadau Ariannol oedd wedi ei dderbyn o Unllais

IBC yn argymhell fod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu y model yn ei cyfanrwydd. **Cafodd yr agymhelliad ei gymeradwyo a mabwysiadwyd y Rheoliadau Ariannol am 2019-20**

'Roedd Cyng L James yn edrych dros ein Aseidiadau Risg. Oherwydd ei absenoldeb heno byddai'n anfon fersiwn electronig at bawb gan roi eglurhad manylach yn y Cyngor nesaf.

Daeth cais i'r Cyngor ystyried rhoi cyfraniad ariannol tuag at draelïau Pwyllgor Rheoli Canolfan Glasinfryn gan ein bod erbyn hyn yn cyfarfod yma yn fisol ag y talu llogi mewn mannau eraill

Ceisiadau Cynllunio Dim

Canolfan Penrhosgarnedd

Dim diweddariad i'w adrodd dros gyfnod tawel yr haf

Adroddodd y Clerc iddo fod wedi siarad a Uwch Reolwr Adeiladau ynglyn a'r diffyg datblygu dros yr haf ag mae'r esboniad gafwyd oedd fod angen ail-edrych/symleiddio y touau. Golygai hynny na fyddai'r safle adeiladu ddim yn cael ei ddarparu tan haner tymor Hydref/Tachwedd ag oherwydd hynny y tebygolrwydd oedd na fyddai posib symud i mewn Nadolig 2020 ond Pasg 2021

Materion y Clerc

- Gohebiaethau

Ad-daliad Ysw Y £504.58 sy'n ddyledus wedi ei drosglwyddo

Cofrestr buddianau Mwyafrif o'r Cyng wedi cwblhau y ffurflen oedd wedi i darparu a'r wybodaeth wedi ei fwydo i gychwyn y gofrestr

Tal TAW **Y Clerc yn delio gyda'r HMRC**

Digwyddiad Ffordd Hendrewen Clerc wedi cysylltu a'r Heddlu ag wedi eu **gwahodd i fynychu unai cyfarfod Hydref neu Tachwedd**

SSI Delwedd Clerc wedi cysylltu a Delwedd am eglurhad a chael ar ddeallt fod 'dogelu' ein gwefan yn fwy tebygol o gael mwy o ddefnydd a rhoi hyder i'r defnyddwyr **Y Clerc yn dilyn yr IBC wedi cysylltu yn syth hefo Delwedd**

Deddf Amgylchedd Cymru Clerc wedi anfon yr e-bost ymlaen i'r Cyngorwyr ei ystyried a gweithredu arno. **Bydd ar Agenda cyfarfodydd ardal Unllais**

Adroddiad

Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd - Dim datblygiad o unrhyw fath i fedru gosod hwn

Materion y Cyngorwyr

Cyng C E Hughes Awyddus i drefnu cyfarfod gyda 'Parchu Pentir' i drafod opsiynnau a chostau ynglwm a threfnu datblygu y llecyn gwyrdd yn Rhydygroes.

Cyng L A James Asesu Risg Wedi bod yn gweithio ar y sustem o adnabod a mesur y gwahanol risgiau allai y Cyngor ei wynebu a sut oedd lleihau os yn bosib y risgiau hynny
Yn absenoldeb y Cyng heno byddai cyfle i ail-ymweld yn ystod Cyngor Llawn nesaf

Gofynnodd Cyng B Jones os oedd modd ail-godi'r mater i osod drych gyferbyn a chyffordd Alotan Crescent **Clerc i gysylltu eto a'r Adran Trafnidiaeth**

Yn gyffredinll gofynwyd i bawb ystyried sut y gellir adnabod lleoliadau i'r Diffibryddion mae'r Cyngor wedi cytuno i'w prynu a'i gosod

Cyng E Jones am holi ardal Treborth a chysylltu hefo CCG

Cyng M Baines am edrych i rhoi rhywbeth i fyny ar Facebook Glasinfryn/Caerhun

Clerc wedi holi Tomos Hughes ynglyn a mabwysiadu Kiosg a/neu brynu Kiosg gan i ni adnabod lleoliad yr hen Kiosg yn Glasinfryn.

Tomos wedi esbonio fod y mwyafrif o'r Kiosgs sy'n dal yn weithredol ar gael am £1.00 ond bod prynu Kiosg a'i leoli yn llawer iawn drytach a wedyn angen cyflenwad trydan ynddynt fyddai'n gost ychwanegol

Byddai cost y boc a'r peiriant Diffib yn ben hynny wedyn.

Sawl Diffib bellach wedi eu gosod ar ochrau tai os yw'r perchnogion yn fodlon gan mae oddeutu £10.00 y flwyddyn yw cost rhedeg y peiriant.

Rhai yn cynnig talu £50.00 i'r perchnogion am y 5 mlynedd cyntaf ag yna ail-ymweld a'r cytundeb ar ol hynny

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10